| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Chwefror 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Addysg /<br>Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Aelod Arweiniol Addysg** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Moderneiddio Addysg - Adolygiad Gateway** |

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Rhoi gwybod i'r Aelodau am ganfyddiadau Adolygiad Gateway yn Rhaglen Moderneiddio Addysg Sir Ddinbych ac i dderbyn diweddariad cyffredinol ar gynnydd presennol y prosiectau unigol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

I sicrhau’r Aelodau ynglŷn â chynnydd yn erbyn y Blaenoriaeth allweddol hon i’r Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

I wneud sylwadau ar ganfyddiadau Adolygiad Gateway ac i roi sylwadau ar y cynnydd yn gyffredinol yn erbyn y blaenoriaeth allweddol hwn i’r Cyngor.

## 4. Manylion am yr adroddiad

### Cyflwyniad

4.1 Fel rhan o'r broses o drosglwyddo Cynllun Corfforaethol y Cyngor, mae'r ffrwd waith ar gyfer y flaenoriaeth o wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion wedi’i ddatblygu i fod yn rhaglen eglur o waith. Mae'r prosiectau presennol sy'n rhan o'r ffrwd waith hon yn cynnwys y prif brosiectau cyfalaf a'r cynigion trefniadaeth ysgolion. Mae trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru wedi nodi'r manteision o gynnal Adolygiad Gateway ar y ffrwd waith hon er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd ynghylch y mesurau sydd ar waith i reoli'r rhaglen hon.

### Adolygiad Gateway

4.2 Cynhaliwyd Adolygiad Gateway ffurfiol ar Raglen Moderneiddio Addysg Sir Ddinbych rhwng 16 a 18 Medi. Dyma tîm annibynnol yr Adolygiad Gateway a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn cyfweld ag ystod o bersonél allweddol sy'n rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg.

4.3 Mae'r system adolygu yn darparu pum categori o farn yn amrywio o Wyrdd, Melyn / Gwyrdd, Melyn, Melyn / Coch a Coch. Yr asesiad trosglwyddo hyder

yn gyffredinol yn yr adolygiad oedd Melyn / Gwyrdd – Mae trosglwyddo'n llwyddiannus yn ymddangos yn debygol ond bydd angen sylw cyson i sicrhau na chaiff y risgiau eu gwireddu yn faterion o bwys sy'n bygwth y trosglwyddiad.

**Canfyddiadau ac Argymhellion o'r Adolygiad**

4.4 Sylwadau'r adolygiad (gweler Atodiad 1) yn gryno fel a ganlyn: -

"Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i barhau i godi safonau addysgol yn y Sir ac i wneud y buddsoddiad sydd ei angen. Mae cyfansoddiad Fframwaith y Rhaglen Moderneiddio Addysg (MEPF) yn adlewyrchu canlyniadau cyfres o adolygiadau strwythuredig ar feysydd o ddarpariaeth addysg yn y Sir. Penderfyniadau yn dilyn ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol dwys ac ymgysylltu. Costau ac amserlenni yn cael eu rheoli'n llym, er bod amseriad a fforddiadwyedd yn cael eu heffeithio gan y broses o wneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru.

Rhaglen a'r broses o lywodraethu'r prosiect yn eu lle (er nad yw'r cyntaf wedi'i ddatblygu'n llwyr eto). Cyngor Sir Ddinbych yn cymryd y broses o reoli rhaglen o ddifrif ac mae profiad, gallu ac arbenigedd yn yr uwch dîm presennol. Mae'r tîm addysg, gan weithio'n agos á'r Rhaglen wedi ymrwymo i ddatblygu a gwella sgiliau'r gweithlu ysgolion.

Yr ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol yw'r risg unigol mwyaf i'r Rhaglen ac, fel mewn mannau eraill, mae rhaglen ysgolion Sir Ddinbych wedi'i effeithio gan benderfyniadau gwahanol ar y cyfanswm, amseriad a natur y gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Gan edrych ymlaen, mae cyllid llywodraeth leol yn debygol o gael ei leihau ymhellach ac mae Sir Ddinbych yn ystyried sut y gellir lliniaru'r effaith hyn ar ei raglen buddsoddi mewn ysgolion.

Mae amcanion polisi clir ar gyfer y Rhaglen ond byddai datganiad gweledigaeth gyffredinol sy'n nodi beth fyddai'r dyfodol yn edrych fel yn ddefnyddiol. Er bod yr adolygiadau ardal yn darparu sail gadarn ar gyfer y Rhaglen, nid oes mynegiant clir o sut y mae'r canfyddiadau o'r ardaloedd unigol – a'r weledigaeth ar gyfer pob un a fydd yn deillio o'r gwaith hwnnw - yn cael ei adlewyrchu ar lefel rhaglen. Er bod manteision caled a meddal wedi'u nodi ar lefel prosiect, mae'r gwaith o ddod â'r rhain at ei gilydd ar lefel rhaglen yn dal i gael ei ddatblygu. Yn benodol, mae angen casglu dangosyddion o gyfraniad y Rhaglen i'r canlyniadau addysgol yn y Sir.

4.5 Dyma’r adolygiad yn gwneud pedair prif argymhelliad sydd i’w gweld isod: -

| Cyf Rhif | Argymhelliad | Critigol / Hanfodol/ Argymhellir |
|---|---|---|
| 1. | **Mae’r ddogfen Diffinio Rhaglen angen cynnwys datganiad gweledigaeth a datganiad clir ar gyfer cwmpas ac amserlen y rhaglen. Dylai'r ddogfen gael ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddaru.** | Hanfodol. Erbyn Mawrth 2014 |
| 2. | **Dylai'r rhaglen sicrhau bod matrics cynhwysfawr a matrics mesur manteision sy’n cydgrynhoi, gan adeiladu ar y gwaith ar lefel prosiect a chynnwys y manteision ar lefel ardal a rhaglen. Yn ogystal, dylai'r gwaith adnabod, casglu ac olrhain greu ysylltiadau ar gyfer manteision y Rhaglen, a dylai canlyniadau addysgol fod yn faes o flaenoriaeth ar gyfer cam nesaf y Rhaglen.** | Hanfodol. Erbyn Mawrth 2014 |
| 3. | **Dylai cofrestr lefel risg y Rhaglen gael ei ddatblygu i fod yn brif offeryn rheoli risg Bwrdd y Rhaglen.** | Hanfodol. Erbyn diwedd Hydref 2013 |
| 4. | **Dylai’r Rhaglen sefydlu proses ar gyfer gwerthuso canlyniadau yr adolygiadau o feysydd gwahanol.** | Hanfodol. Erbyn Mawrth 2014 |

4.6 At ei gilydd mae canfyddiadau'r adolygiad yn awgrymu bod y Rhaglen mewn sefyllfa gref i gyflawni’r canlyniadau a fwriedir. O ran argymhelliad 3 cyflwynwyd cofrestr lefel risg wedi’i ddiweddaru ar gyfer y Rhaglen yng nghyfarfod Bwrdd y Rhaglen ym mis Hydref 2013. Ar gyfer y tri argymhelliad sy'n weddill bydd Rheolwr y Rhaglen yn gorfod arwain ar y darnau hyn o waith ac yn gorfod adrodd yn ôl ar y cynnydd i Fwrdd y Rhaglen Moderneiddio Addysg ym mis Mawrth.

**Cynnydd cyffredinol yn erbyn y Rhaglen**

4.7 Mae'r cynnydd cyfredol yn erbyn y Rhaglen yn cael ei asesu ar hyn o bryd drwy brosesau her fewnol fel Adroddiadau Perfformiad Chwarterol a Bwrdd y Rhaglen Moderneiddio Addysg. I wneud i’r Pwyllgor ddeall yr amrywiaeth a geir yn y rhaglen gyfredol mae Atodiad 2 yn rhoi crynodeb o gwmpas a chynnydd y prosiectau unigol ar hyn o bryd.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Flaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r ffrwd waith hon yn cyfrannu'n uniongyrchol at y flaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol - "Gwella Perfformiad mewn Addysg a Ansawdd ein Adeiladau Ysgolion" Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys cynigion cyllid i fuddsoddi tua £96miliwn yn ystadau ysgolion i wella ansawdd adeiladau ysgol.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Disgwylir i'r gost gyffredinol o ddarparu'r Rhaglen fod yn oddeutu £96m. O'r swm hwn caiff £73.4 ei ariannu fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gyda 50% ohono'n dod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylai'r templed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i lenwi gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer gwybodaeth.

**8. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?**

Lluniwyd yr adroddiad yn dilyn trafodaethau gyda'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw ymgynghori pellach wedi digwydd.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y risg nad yw argaeledd cyfraniad arian cyfatebol Llywodraeth Cymru ar gael ar gyfer Band A o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn unol â'r amserlenni ar gyfer rhaglen waith Sir Ddinbych sydd ar hyn o bryd yn cael ei reoli fel rhan o'r Gofrestr Risg Corfforaethol cyffredinol. Mae'r gofrestr risg ar wasanaeth i Gwsmeriaid a Chymorth Addysg hefyd yn cynnwys nifer o risgiau a chamau lliniaru ar gyfer y Rhaglen Moderneiddio Addysg ehangach. Mae cofrestr risg hefyd yn cael ei gynnal gan Fwrdd y Rhaglen, ac mae prosiectau unigol hefyd yn rheoli cofrestrau risg ar lefel prosiect. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu yn rheolaidd.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Erthygl 6.3.4 (b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau craffu mewn perthynas ag archwilio perfformiad mewn perthynas ag amcanion polisi.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr y Rhaglen – Moderneiddio Addysg
Ffôn: 01824 706254